

Chwerthin yn iach

“A dywedodd Sara, ‘Parodd Duw imi chwerthin.’” (adn. 6)

Beth am ddarllen Genesis 21:1–7 ac yna myfyrio

Heddiw, yr ydym eto am edrych ar y ffaith fod llawenydd yn weithgarwch difrifol yn y nefoedd. Gair sydd wedi ei gysylltu â llawenydd yw ‘chwerthin’. Fe ofynnwyd i mi yn aml: “A fydd yna chwerthin yn y nefoedd?” Yn bersonol, nid oes gennyf ddim amheuaeth. Credaf y bydd chwerthin iach yn atseinio ymhlith y rhai sydd wedi eu cadw ac fe fyddwn yn darganfod, mi dybiaf i, fod hynny o chwerthin a wnaethom ar y ddaear yn ddim o’i gymharu â’r chwerthin fydd yn y nefoedd. Mae’r Ysgrythur yn awgrymu fod llawenydd a chwerthin yng nghalon Duw. Pam dim ond awgrymiadau? Os yw yr Arglwydd yn gorchuddio’i ogoniant rhag iddo fod yn ormod i lygad meidrol, onid yw efallai’n wir ei fod hefyd yn gorchuddio ei orfoledd? Un o’r pethau yr wyf wedi sylwi wrth eistedd yn gweinidogaethu i Gristnogion sydd ar fin cyfarfod ag angau, ac mae hyn yn cynnwys fy ngwraig fy hun, yw eu bod o bryd i’w gilydd yn sôn am glywed chwerthin. “Wyt ti’n clywed?” maent yn gofyn. “A elli di glywed pobl yn chwerthin?”

Ychydig amser yn ôl, clywais hanes am fachgen oedd wedi ei ddwyn i fyny mewn teulu tlawd a chwerylgar iawn. Nid oedd y plentyn erioed yn cofio chwerthin. Wedi iddi nosi, mi fyddai’r plentyn bach yn mynd at gymdogion. Roedd yn mynd oherwydd ei fod yn gwybod fod y teulu yma yn llawen, ac mi fyddai’n eistedd wrth myl ei ffenestr, dim ond er mwyn eu clywed yn chwerthin. Yna, mi fyddai’n mynd adref ac yn gorwedd ar ei wely ac yn gofyn os deuai’r diwrnod pryd y byddai yntau hefyd yn medru chwerthin. Efallai mai dychmygu hyn yr wyf, ond, o bryd i’w gilydd, wrth weddio, wrth wrando ar lais Duw a llais Ysbryd Duw, tybiaf fy mod yn clywed chwerthiniad y nefoedd. Gallaf ddweud gyda hyder: Nid oes yr un ohonom wedi chwerthin yma yr un modd ag y byddwn ni’n chwerthin yn y nefoedd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Dat. 19:1–7; 1 Thes. 2:19

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd y lliaws yn ei wneud yn y nefoedd?
2. Beth, fyddai Paul yn ei wneud ym mhresenoldeb Iesu?

Gweddi

Dad trugarog, a yw’n bosibl dy fod ti yn gorchuddio dy ogoniant ac, ar yr un pryd, yn gorchuddio dy orfoledd a dy chwerthiniad? Rwy’n dechrau gweld fod yna fwy o orfoledd nag yr wyf erioed wedi ei ddychmygu. Un diwrnod, caf ei weld a mynd i mewn i’r gorfoledd yma. Arglwydd, diolch i ti. Amen.